## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (PONT MENAI, YNYS MÔN A GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU MAWR DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffordd ac i wneud gwaith ar gefnffordd yr A5, neu gerllaw iddi, wrth Bont Menai, Ynys Môn a Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro pob cerbyd sy'n pwyso 7.5 tunnell neu fwy rhag mynd ar yr A5 Pont Menai.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain yw mynd ar yr A5 Ffordd Caergybi tua'r gorllewin i ymuno â'r A55 tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8A (Cyfnewidfa Carreg Brân) a theithio ar Bont Britannia i Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Bangor. Dylai cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin ddilyn yr A487 tua'r de-orllewin o gylchfan Tafarn yr Antelope i ymuno â'r A55 tua'r gorllewin wrth Gyffordd 9.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 3 Gorffennaf 2025. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 00:01 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw hyd 05:00 o'r gloch ar 28 Chwefror 2026, neu hyd nes caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn dechrau unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M J CLARKE**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A5 TRUNK ROAD (MENAI SUSPENSION BRIDGE, ANGLESEY AND GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF LARGE VEHICLES) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to ensure the safety of road users and to undertake works on or near the A5 trunk road at Menai Suspension Bridge, Anglesey and Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles with a weight of or over 7.5 tonnes from proceeding on the A5 Menai Suspension Bridge.

The alternative route for eastbound vehicles is via the westbound A5 Holyhead Road to join the eastbound A55 at Junction 8A (Carreg Bran Interchange) and travel on the Britannia Bridge to Junction 9 (Treborth Interchange), Bangor. Westbound vehicles should follow the south-westbound A487 from the Antelope Inn roundabout to join the westbound A55 at Junction 9.

The Order comes into force on 3 July 2025. The temporary prohibition is expected to operate from 00:01 hours on that date until 05:00 hours on 28 February 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before the start of any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M J CLARKE**
Transport
Welsh Government